




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mwy

na

geiriau ○○○○

**Y Fframwaith Strategol
ar gyfer Gwasanaethau
Cymraeg mewn Iechyd,
Gwasanaethau Cymdeithasol
a Gofal Cymdeithasol**



Adroddiad Blynyddol – Blwyddyn 2

Cynnwys

Rhan 1

Symud Ymlaen 1

Iechyd

1. Cynllunio a darparu gwasanaethau (Amcan 1) 2

2. Comisiynu a'r Cynnig Rhagweithiol (Amcan 2) 3

3. Datblygu'r Gweithlu (Amcan 3) 4

4. Arweinyddiaeth (Amcan 4) 5

5. Addysg, Dysgu a Datblygiad (Amcan 5) 6

6. Strategaethau a Pholisïau (Amcan 6) 7

Rhan 2

Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

1. Cynllunio a darparu gwasanaethau (Amcan 1) 8

2. Comisiynu a'r Cynnig Rhagweithiol (Amcan 2) 9

3. Datblygu'r Gweithlu (Amcan 3) 10

4. Arweinyddiaeth (Amcan 4) 11

5. Addysg, Dysgu a Datblygiad (Amcan 5) 11

6. Strategaethau a Pholisïau (Amcan 6) 12

Symud Ymlaen

Mae *Mwy na geiriau....* wedi bod ar waith ers dwy flynedd bellach a byddwn yn parhau i'w fonitro tan fydd y cynlluniau gweithredu 3 blynedd wedi dod i ben. Datblygwyd fframwaith olynol i adeiladu ar y *Mwy na geiriau....* gwreiddiol a bydd y system fonitro ar gyfer y fframwaith olynol yn cael ei chryfhau er mwyn sicrhau sylfaen gadarn i adrodd ar y broses o weithredu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Canolbwyntiodd cynnydd y flwyddyn gyntaf ar ddatblygu prosesau oedd yn galluogi darparwyr gwasanaethau i gynnig darpariaeth ddwyieithog. Defnyddiodd y byrddau iechyd lleol, yr ymddiriedolaethau a darparwyr y gwasanaethau cymdeithasol y flwyddyn gyntaf i asesu'r angen ieithyddol yn eu hardaloedd a datblygu cynlluniau i ddarparu gwasanaethau i ateb yr anghenion iaith hyn.

Dangosodd asesiad o'r cynnydd a wnaed yn ystod 2014/15 fod yr ymrwymiad i gyflawni amcanion *Mwy na geiriau....* wedi arwain at ddatblygu nifer o fentrau lleol. Cafodd llawer o'r rhain eu cydnabod yng Ngwobrau'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. O ganlyniad, y nod wrth symud ymlaen yw sicrhau bod y mentrau hyn yn cael eu gweithredu'n ehangach.

Mae darparu gwasanaethau yn Gymraeg bellach yn gydran allweddol o'r broses gynllunio ar gyfer iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. At hynny, mae'r Gymraeg hefyd yn elfen allweddol wrth ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru neu ailgyflunio'r gwasanaethau yn y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. I'r diben hwnnw, mae pob polisi yn mynd drwy asesiad Llywodraeth Cymru i fesur ei effaith ar y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y polisi newydd yn ateb anghenion yr iaith Gymraeg. Mae'r datblygiadau hyn yn cynrychioli cynnydd pwysig yn y gwaith o weithredu *Mwy na geiriau....* yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, er gwaethaf enghreifftiau o arfer gorau ar draws y ddau sector, mae llawer o waith eto i'w wneud i sicrhau bod egwyddorion *Mwy na geiriau....* yn cael eu gweithredu'n llawn gan ddarparwyr gwasanaethau. Wrth galon *Mwy na geiriau....* mae gwneud newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir, fydd yn treiddio ar draws y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac yn dod yn rhan ganolog o'r broses gynllunio.

Y Cynnig Rhagweithiol yw'r agwedd fwyaf heriol ar *Mwy na geiriau....* a bydd yn dal i fod yn heriol wrth i ni symud i mewn i drydedd flwyddyn y fframwaith strategol. Y prif ganolbwynt ar gyfer ail flwyddyn y fframwaith strategol oedd sefydlu egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, ac er bod pocedi o arfer da ar draws y ddau sector, mae dull cyson neu systematig o gyflawni hyn eto i'w ddatblygu.

Mae cynnydd ym mlwyddyn 2 wedi cael ei fonitro yn unol â'r chwe amcan strategol a eglurwyd yn *Mwy na geiriau....*

Amcan strategol 1:

Gweithredu dull systematig o ymdrin â gwasanaethau Cymraeg fel rhan annatod o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Amcan strategol 2:

Adeiladu ar yr arferion da presennol, gan gynllunio, comisiynu a darparu gofal ar sail y Cynnig Rhagweithiol.

Amcan strategol 3:

Cynyddu gallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o fewn meysydd blaenoriaeth a chodi ymwybyddiaeth iaith ymysg yr holl staff.

Amcan strategol 4:

Creu arweinwyr a fydd yn meithrin ethos cefnogol o fewn sefydliadau, fel bod defnyddwyr a gofaldwyr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaethau ieithyddol sensitif fel rhan naturiol o'u gofal.

Amcan strategol 5:

Cynllunio a darparu rhaglenni addysg, dysgu a datblygu, sy'n adlewyrchu cyfrifoldeb y gwasanaethau i gynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg.

Amcan strategol 6:

Strategaethau, polisiâu ac arweinyddiaeth genedlaethol.

Rhan 1: Iechyd

Mae'r saith bwrdd iechyd lleol a'r tair ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i gyflawni amcanion *Mwy na geiriau*...

Adroddai Blwyddyn Un y fframwaith strategol am nifer o newidiadau i brosesau mewnol er mwyn darparu llwyfan ar gyfer cyflawni pellach. Ceir tystiolaeth hefyd o nifer o brosiectau llwyddiannus:

1. Cynllunio a darparu gwasanaethau (Amcan 1)

Er mwyn cynllunio'u gwasanaethau i ateb anghenion eu cymunedau, mae angen i sefydliadau sicrhau bod eu systemau cynllunio a chomisiynu yn cynnwys cyfeiriad at broffil ieithyddol eu cymunedau a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu wrth iddynt gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau. Yn y flwyddyn gyntaf, roedd disgwyl i fyrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau fod wedi sefydlu proffil Cymraeg eu cymunedau a defnyddio'r wybodaeth hon fel man cychwyn ar gyfer cynllunio gwasanaethau lleol. Ceir peth tystiolaeth fod sefydliadau yn ymroi i ddefnyddio proffil ieithyddol eu cymunedau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Yn un ymddiriedolaeth, defnyddir proffil ieithyddol y gymuned fel rhan o'r broses recriwtio wrth recriwtio staff rheng flaen yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru. Mae gan eraill dystiolaeth eu bod wedi creu proffil o'u cymuned, ond nid oes tystiolaeth eu bod wedi defnyddio'r proffiliau hyn yn ddigonol. Ceir peth tystiolaeth o gynnwys y Gymraeg mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI) ond anghyson yw ansawdd y wybodaeth hon o'r naill sefydliad i'r llall.

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae mwy o fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn defnyddio proffiliau cymunedol yn sail i'r broses gynllunio ac yn gynyddol yn cydnabod pwysigrwydd ymateb i angen o ran y Gymraeg yn eu CTCI. Mewn rhai ymddiriedolaethau, mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi cael ei integreiddio i mewn i'r broses dendro ac mae'n rhaid i gontractwyr gydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith er mwyn bodloni polisiau iaith y sefydliad.

Mae nifer cynyddol o staff ar draws y byrddau iechyd wedi cwblhau eu hadran maes sgiliau iaith ar y Cofnod Staff Electronig (ESR) ac, mewn rhai manau, bydd y wybodaeth hon yn cael ei hystyried wrth adolygu amserlenni gwaith.

Cafodd strategaethau sgiliau eu datblygu mewn llawer o ardaloedd gyda'r nod o sicrhau y bydd gan y byrddau iechyd ddigon o staff yn cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar yr ESR. Dylai hyn gynyddu'n sylweddol gan fod y staff yn cael mynediad uniongyrchol i fewnbynnu eu sgiliau ar ESR.

Bydd Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg y byrddau iechyd yn sicrhau, ar lefel y Bwrdd, fod yr holl gynlluniau ac adroddiadau ffurfiol wedi ystyried yr effeithiau posibl ar siaradwyr Cymraeg.

Cafodd gwaith ei wneud hefyd gyda'r Datblygiad Partneriaeth Cymunedol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio i Restrau Gwirio Contractio. Mae rhai byrddau iechyd yn galluogi contractwyr 3ydd sector a gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog drwy gyfrwng sesiynau ymwybyddiaeth unigol mewn meddygfeydd Meddygon Teulu ac yn ystod rhaglenni cynefino 3ydd sector, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd rheolwyr practis i godi ymwybyddiaeth o *Mwy na geiriau*... a'r Cynnig Rhagweithiol.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

Anghyson yw cofnodi ESR ar draws byrddau iechyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau annog staff i gwblhau'r adran sgiliau iaith fandadol.

Mae angen ymroi i ddefnyddio'r wybodaeth o'r proffiliau cymunedol wrth gynllunio gwasanaethau. Dengys tystiolaeth fod hyn yn digwydd eisoes mewn rhai ardaloedd ond nid ar draws y wlad. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am asesu anghenion iechyd a lles eu poblogaethau, a chynllunio a darparu gofal i ateb yr anghenion hynny.

Mae fframwaith cynllunio'r GIG Llywodraeth Cymru, sydd wedi ei ddiweddarau, a'r cynllun gofal sylfaenol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cryfhau'r dystiolaeth fod asesu anghenion poblogaeth leol a chynllunio gofal yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei wneud ar gyfer cymunedau o oddeutu 25,000 i 100,000 o bobl. Mae byrddau iechyd yn datblygu strwythurau cynllunio lleol ar lefel gymunedol - clystyrau gofal sylfaenol - i gefnogi hyn. Bydd y clystyrau hyn mewn sefyllfa fanteisiol i ganfod anghenion iaith Gymraeg unigolion a chymunedau lleol, gan gynorthwyo gofal sylfaenol i ymateb yn fwy effeithiol i'r egwyddorion sydd wedi eu hegluro ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a *Mwy na Geiriau*....

2. Comisiynu a'r Cynnig Rhagweithiol (Amcan 2)

Mae a wnelo'r cam hwn â mapio'r gallu i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol; nid ei fwriad yw dangos bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ddarparu ar draws y sector.

Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn gweithredu *Mwy na geiriau*.... yn ystod y flwyddyn gyntaf, awgryma'r dystiolaeth fod yna bocedi o arfer da o ran darparu'r Cynnig Rhagweithiol ac mae enghreifftiau hefyd o ddata iaith yn cael ei ddefnyddio i nodi'r gallu i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg data iaith diweddar a chywir, nid oes cysondeb ar draws yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau.

Er mwyn i'r sector hwn fedru mapio'r gallu i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol a sicrhau bod '*cleifion yn cael eu grymuso os ydynt yn gallu siarad â'r staff yn eu hiaith eu hunain*', mae angen gwneud casglu data mor hawdd ag sydd modd. Rhaid i newidiadau yn y systemau a'r prosesau mewnol presennol, fydd yn ei gwneud yn bosibl i hyn ddigwydd, fod yn flaenoriaeth.

Y Cynnig Rhagweithiol oedd thema Cynhadledd a Gwobrau y Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014. Clywodd y cynadleddwyr gan y Consortium National de Formation en Santé (CNFS), am y modd y defnyddir y Cynnig Rhagweithiol yn y sector iechyd yng Nghanada, fel y gallai siaradwyr Ffrangeg a Saesneg gael mynediad at wasanaethau yn yr iaith o'u dewis. Roedd cyfle i ddysgu oddi wrth y profiad yng Nghanada a rhannu arferion da. At hynny, cyflwynwyd categori penodol ar gyfer y Cynnig Rhagweithiol fel rhan o'r gwobrau.

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae rhai byrddau iechyd wedi datblygu eu poster i Cynnig Rhagweithiol eu hunain a thafleuni gwybodaeth i staff, ac mewn nifer o ardaloedd mae adnoddau ar-lein yn cael eu cadw ar safleoedd mewnruwyd lleol i fod o gymorth i gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda thimau rheoli mewn llawer o ardaloedd gyda golwg ar fapio llwybrau defnyddwyr gwasanaeth a nodi cyfleoedd ar hyd y llwybrau hynny i wneud Cynnig Rhagweithiol. Mewn rhai ardaloedd, cynhelir archwiliadau ar gofnodion cleientiaid i ganfod a ydynt wedi derbyn Cynnig Rhagweithiol.

Mae fersiynau Cymraeg o offer asesu dementia craidd wedi cael eu datblygu a'u cyhoeddi gan Brifysgol Bangor fel y gall siaradwyr Cymraeg gael eu hasesu yn Gymraeg.

Mae datblygiad prosiect Iechyd Meddwl Pobl Hyn i fapio'r ddarpariaeth bresennol a'r gallu i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol o fewn gwasanaethau dementia wedi cael ei sefydlu. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn casglu barn cleifion ynghylch eu bodlonrwydd a bydd y data hwn yn sail i wasanaeth claf-ganolog penodol.

Yn ystod sesiynau sefydlu staff a staff meddygol bydd y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei drafod yn aml ac mae llawer o ardaloedd wedi defnyddio Dydd Gŵyl Ddewi a Diwrnod Shwmae/Su'mae i godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol.

Cynigiwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gan nifer o ymddiriedolaethau ers nifer o flynyddoedd ond mewn rhai ardaloedd mae'r hyfforddiant presennol wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg ac integreiddio'r Cynnig Rhagweithiol.

Mewn rhai ardaloedd, cynhelir archwiliadau ar gofnodion cleientiaid lle mae derbyniwr yr alwad yn nodi mai Cymraeg yw'r ddewis iaith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i wneud y Cynnig Rhagweithiol.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

Caiff gofal yn Gymraeg ei gynnig yn rhagweithiol i gleifion. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu esiamplau o arfer gorau a ganfyddir, sy'n gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg, ymhlith staff a chaiff yr enghreifftiau hyn o arfer gorau eu hefelychu.

Defnyddir adnodd Llywodraeth Cymru ar y Cynnig Rhagweithiol a gyhoeddwyd yn 2015 yn ystod cyfleoedd hyfforddi a datblygu staff.

3. Datblygu'r Gweithlu (Amcan 3)

Mae gweithredu blwyddyn dau *Mwy na geiriau....* wedi tynnu mwy o sylw eto at yr angen i fuddsoddi mewn sgiliau Cymraeg ar draws y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau. Er mwyn sicrhau gweithlu ieithyddol fedrus a chynyddu gallu'r gweithlu hwn i ddefnyddio ei sgiliau iaith, mae'n rhaid i'r fethodoleg gynllunio sicrhau bod iaith yn elfen ganolog.

Mae'r dystiolaeth yn parhau i ddangos, er bod sgiliau iaith yn cael eu casglu (gyda pheth llwyddiant), bod y wybodaeth eto i gael ei defnyddio'n systematig er mwyn recriwtio ar gyfer swyddi yn y dyfodol. Nid yw sgiliau iaith yn cael eu hystyried yn gyfartal â sgiliau eraill.

Bydd strategaethau sgiliau iaith yn galluogi'r sector i fynd i'r afael â'r mater hwn yn systematig ond hyd yma dim ond pedair sydd wedi cael eu cynhyrchu ar draws y sector. Mae nifer o resymau am hyn ac un o'r rhai pwysicaf yw casglu sgiliau iaith fel rhan o'r system Gofnodion Staff Electronig.

Mae'r broses ar gyfer casglu'r wybodaeth hon yn dal i rwystro datblygu'r strategaethau sgiliau iaith a bydd angen datrys hyn os yw'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau i allu symud ymlaen gyda'u dadansoddiad o ddata sgiliau iaith.

Roedd hon yn flaenoriaeth a osodwyd ar gyfer blwyddyn gyntaf y strategaeth a bydd yn dal i fod yn ofynnol wrth inni symud i flwyddyn tri *Mwy na geiriau....*

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae datblygiad y gweithlu a datblygiad sefydliadol mewn rhai mannau wedi datblygu strategaethau sgiliau dwyieithog. Un o'i nodau yw sicrhau y bydd gan y sefydliad nifer cynyddol o staff yn cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar y Cofnod Staff Electronig. O ganlyniad, mae nifer y siaradwyr Cymraeg ar y gronfa ddata wedi cynyddu.

Mewn rhai ardaloedd, cymerwyd camau i brif-ffrydio'r Gymraeg i mewn i'r broses recriwtio. Mae swyddi penodol, megis ateb galwadau a recriwtio dros y ffôn wedi cael eu nodi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.

Mewn llawer o ardaloedd, bydd y staff newydd i gyd yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan annatod o'r sesiynau sefydlu corfforaethol. At hynny, mewn rhai achosion, mae modiwl ar-lein ar gael dros y fewnwyd ac mae cynlluniau 'ffrind' Cymraeg yn bodoli hefyd i fod o gymorth i gynyddu hyder y staff. Mae hyfforddiant unigol ar gael i rai aelodau o'r staff uwch.

Mae Grŵp Gweithredu Sgiliau Dwyieithog wedi cael ei sefydlu mewn un ardal ac mae'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygiad Sefydliadol. Mae'r grŵp hwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod darpariaeth ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

Mae Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses o gasglu sgiliau iaith staff yn y GIG yn cael ei chryfhau. Caiff y broses hon ei chychwyn gan Lywodraeth Cymru ond ei chyflawni drwy Gyfarwyddwyr y Gweithluoedd o fewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Ystyrir yn ofalus sut i lenwi unrhyw fylchau sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â GIG Cymru i benderfynu ar y wybodaeth sydd ar gael am anghenion siaradwyr Cymraeg mewn lleoliadau gofal sylfaenol gwahanol ac mewn lleoliadau daearyddol amrywiol. Bydd y gwaith hwn yn rhoi gwybodaeth i benderfynu pa allu ychwanegol y bydd efallai ei angen.

I feddygon teulu, bydd y gwaith clwstwr mewn gofal sylfaenol yn galluogi practisau meddygon teulu i gydweithio i sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Y nod yn y pen draw yw cael mwy o feddygon teulu sy'n siarad Cymraeg. Yn y tymor byr, mae ar Lywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod aelodau Cymraeg o'r gweithlu gofal sylfaenol ar gael o fewn ardal y clwstwr. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn y broses o drafod gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynghylch y posibilrwydd i holl staff fferylliaeth gymunedol sy'n siarad Cymraeg wisgo bathodyn - mae llawer yn gwneud hynny eisoes.

Mae arwyddion dwyieithog, fydd yn cynnwys logo'r GIG, wrthi'n cael eu paratoi i'w harddangos ar safleoedd fferylliaeth. Caiff deunydd hybu pellach, megis taflenni gwybodaeth i gleifion a thafleuni ynghylch y gwasanaethau a ddarperir, eu cyflwyno i wella profiad y claf i bobl y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn ymrwymedig eisoes i edrych i mewn i hyn, ynghyd â mentrau penodol eraill yn ymwneud â *Mwy na geiriau....*

4. Arweinyddiaeth (Amcan 4)

Mae arweinyddiaeth gref a chymryd perchnogaeth o wasanaethau Cymraeg yn hanfodol er mwyn i gyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau dros yr iaith gael ei brif-ffrydio i mewn i'w gwaith o gynllunio gweithlu a gwasanaethau. Nid oes yr un eto wedi cyhoeddi fframwaith strategol y Gymraeg a chynllun gweithredu ar gyfer y gwasanaethau y maent yn eu darparu, eu comisiynu a'u contractio fel oedd yn ofynnol ym mlwyddyn 2. Mae gan rai gynlluniau comisiynu yn eu lle ar gyfer sectorau'r bobl oedrannus ac anabledd dysgu, lle mae ymateb i anghenion iaith yn elfen mor bwysig o ddarparu gofal o ansawdd sy'n ddiogel.

Yn ogystal â chysiau ymwybyddiaeth iaith mwy cyffredinol i staff, mae angen sicrhau bod rhaglenni hyfforddi arweinwyr yn cynnwys elfen ar bwysigrwydd bod yn sensitif i iaith fel rhan o effeithiolrwydd gofal, a bod iaith yn rhan annatod o ofal. Fodd bynnag, er bod gan lawer gyrsiau cyffredinol i staff ar bwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaeth, nid oes dim byd penodol ar gyfer arweinwyr.

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae Hyrwyddwyr y Gymraeg yn adrodd yn flynyddol ynghylch y gwasanaeth a ddarperir fel rhan o'u hadroddiadau cynnydd blynyddol yn erbyn amcanion allweddol y Cynllun Iaith Gymraeg a *Mwy na geiriau....*

Mae cyfeiriadau clir at y Gymraeg o fewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y rhan fwyaf o sefydliadau a datganiad polisi wedi ei gyhoeddi i ddisgrifio cydymffurfio â *Mwy na geiriau....*

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

Mae angen o hyd i'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau ddangos ymrwymiad ac arweinyddiaeth pellach i integreiddio perchnogaeth, gyda golwg ar bob cam gweithredu o fewn Mwy na geiriau. Bydd hyn yn sicrhau nad y swyddogion iaith Gymraeg unigol yn unig sy'n gyfrifol am gyflawni'r fframwaith strategol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Fframwaith Profiad Cleifion Cymru gyfan, sydd wedi ei fwriadu i fod yn sail i ddatganiadau ansawdd blynyddol y byrddau iechyd. Disgwylir i'r rhain adlewyrchu profiad pawb, gan gynnwys y rheiny sy'n defnyddio gofal iechyd yn Gymraeg.

5. Addysg, Dysgu a Datblygiad (Amcan 5)

Mae tystiolaeth o raglenni hyfforddiant llwyddiannus yn dal i gael ei chynhyrchu, gan gynnwys rhaglenni hyfforddi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y sector iechyd.

Mae gan y Coleg Gymraeg Cenedlaethol yn awr nifer sylweddol o ddarlithwyr sy'n datblygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Gymraeg mewn Gofal Iechyd.

At hynny, mae 'Panel Pwnc' wedi bod yn cyfarfod unwaith bob tymor academiaidd. Mae'r panel yn cynnwys darlithwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Coleg Gymraeg Cenedlaethol ac academyddion sy'n frwdfrydig ac o blaid cyflawni polisi'r Gymraeg. Cytunodd y panel ar gynlluniau gweithredu i gynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr astudio. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r panel pwnc wedi comisiynu 5 prosiect penodol i greu adnoddau addysgol i gefnogi'r hyfforddiant. Cafodd byrddau prosiect eu ffurfio i fod yn gyfrifol am nodi bylchau a datblygu'r deunydd angenrheidiol i gefnogi darpariaeth bwrpasol o safon uchel. Cytunwyd i ganolbwyntio ar y themâu canlynol, y Gwyddorau Dynol, Anatomeg, Gwyddoniaeth Graidd, Moeseg, Urddas, Cyfathrebu, Cydsyniad, Materion Cyfreithiol, a'r Cynnig Rhagweithiol, a gofynnwyd i ymgeiswyr greu deunydd perthnasol.

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi cael eu darparu'n eang ar gyfer staff mewnol gan gynnwys staff mewn gofal sylfaenol a rheolwyr practisau meddygon teulu, ac i rai staff mewn practisau meddygon teulu.

Mewn arfarniadau, anogir staff yn gynyddol i nodi unrhyw ofnyion dysgu, gan gynnwys hyfforddiant Cymraeg. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn fandadol i'r staff i gyd mewn rhai sefydliadau. Mae pecynnau e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gael i gynorthwyo gyda datblygiad. Rhaid i addysg a hyfforddiant fod yn ddull galluogi allweddol o ran ateb anghenion iaith siaradwyr Cymraeg mewn gofal sylfaenol.

Roedd un bwrdd iechyd, oedd yn bresennol mewn Ffair Swyddi Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor ym mis Mawrth 2015, yn tynnu sylw darpar fyfyrwyr at gyfleoedd gyrfa o fewn y sector iechyd a dangos y Gymraeg fel sgil ychwanegol. Bydd Ysgol Glinigol Gogledd Cymru Ysbyty Gwynedd hefyd yn mynychu ffeiriau gyrfaedd mewn ysgolion uwchradd lleol gan dargedu disgyblion sy'n siarad Cymraeg.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

Dylai GIG Cymru, mewn partneriaeth gyda chomisiynwyr a darparwyr addysg, adolygu'r trefniadau presennol a nodi pa gamau pellach sydd eu hangen i ddarparu rhaglenni hyfforddiant, a all adlewyrchu anghenion lleol.

Mae gwaith pellach i'r sector ei wneud o ran sicrhau bod partneriaid allweddol megis Gyrfa Cymru a Job Centre Plus yn hybu pwysigrwydd a gwerth sgiliau dwyieithog yn y sector iechyd. Mae consensws ymhlith academyddion bod angen ymgysylltu â phobl ifanc yn gynnar i'w haddysgu a'u hysbysu am gyfleoedd gwaith o fewn gofal iechyd ac amlinellu manteision sgiliau dwyieithog.

6. Strategaethau a Pholisïau (Amcan 6)

Mewn llawer o ddogfennau polisi, ymddengys nad yw'r dimensiwn iaith yn cael ei ystyried fel elfen greiddiol, ac mae hyn yn arwain at anghydraddoldeb i lawer o ddefnyddwyr. Disgwylir i adrannau Llywodraeth Cymru gynnal asesiadau effaith er mwyn dangos eu bod wedi nodi ystyriaethau'r Gymraeg ac wedi gweithredu arnynt.

Yn ystod y flwyddyn, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol i Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol: Fy Iaith, Fy Iechyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r modd y caiff yr argymhellion eu gweithredu drwy gynllun mewnol manwl.

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn dangos yn gynyddol sut y maent yn bwriadu cyflawni eu dyletswyddau o ran y Gymraeg yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae'r Uned Polisi Iaith Gymraeg yn adolygu elfen iaith Gymraeg y CTCI ac yn rhoi adborth arnynt a mae polisïau sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru yn destun craffu gan y Bwrdd Sicrwydd polisi lle caiff yr elfen iaith Gymraeg ei hystyried.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

The Welsh Government to ensure the future planning principles included with the Integrated Medium Term Plans include specific information around the planning for Welsh language provision.

The annual Fundamentals of Care Audit, which is being extended to community settings, asks if patients are able to communicate in Welsh with nursing staff in the clinical area if they wish to. Question six of the NHS Wales service user experience core questions, used in primary and secondary care settings, asks patients if they are able to speak Welsh to staff if they need to. This information needs to be incorporated into service planning and delivery.

The Welsh Government's Knowledge and Analytical Service research teams will work in partnership with relevant Welsh Government departments, and other agencies as appropriate (including the Health and Social Services Research and Development) to identify research priorities and build these into the evidence planning process for future years, with the aim of mainstreaming the Welsh language both in primary healthcare and Welsh language planning research.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Mae AGIC wedi datblygu strategaeth sgiliau iaith i asesu sgiliau Cymraeg y staff presennol er mwyn cynllunio ar gyfer gwasanaethau yn unol â hynny. Bydd hyn yn eu galluogi i nodi swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol a mabwysiadu dull mwy systematig o gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Bu ymgyrch recriwtio i recriwtio arolygwyr â sgiliau Cymraeg yn llwyddiant. Gall y sefydliad yn awr ddarparu arolygiadau yn Gymraeg. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen i'r arolygiaeth ac mae'n dangos ymrwymiad i newid.

Bydd y Cynnig Rhagweithiol yn rhan o'r arolygiadau hefyd gan gynnwys o fewn meddygfeydd meddygon teulu yn y dyfodol. Mae AGIC yn bwriadu asesu llwyddiant y cysyniad hwn ar draws ei phrosesau arolygu.

Yn ystod 2014-15 cynhaliodd AGIC 46 o Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol. Dangosai'r ymatebion a dderbyniwyd mewn holiaduron profiad y claf, yn dilyn yr arolygiadau hyn, fod 78% yn dweud eu bod wedi cael cynnig y dewis i gyfathrebu â'r staff yn yr iaith yr oeddent yn ei dewis.

Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

Mae sector y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol wedi dangos ymrwymiad cryfach fyth i gyflawni *Mwy na geiriau*.... yn ei ail flwyddyn. Ceir arweinyddiaeth glir gan y sector hwn, sy'n dangos y gall newidiadau bychain wneud gwahaniaeth i gyflawni'r fframwaith strategol ac, yn y pen draw, i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Mae Cyngor Gofal Cymru eto wedi cyflawni mentrau llwyddiannus er mwyn cefnogi'r sector ymhellach. Eleni, maent wedi lansio adnodd hyfforddi 'Sgiliau Cymraeg yn eich gweithlu', sy'n rhoi arweiniad o ran sut i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a sut i asesu sgiliau eich gweithlu.

Mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, maent hefyd wedi lansio adnodd Cymraeg ar gyfer unigolion sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sectorau gwasanaethau cymdeithasol/gofal cymdeithasol. Mae'r ymrwymiad hwn yn parhau gan fod datblygiadau ar y gweill i gryfhau'r offer ymwybyddiaeth o'r Gymraeg presennol er mwyn cryfhau eu hymrwymiad ymhellach i'r Gymraeg a'r camau gweithredu yn *Mwy na geiriau*....

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer swydd ran-amser i gynorthwyo gyda gweinyddu'r fframwaith strategol. Bydd hyn o gymorth gyda chasglu data a chyflawni'r fframwaith a chynnig cefnogaeth gyffredinol i Brif Gyfarwyddwr ADSS Cymru. Mae'r ymrwymiad parhaus hwn yn gam cadarnhaol ymlaen i sicrhau dull cyson a systematig o gyflawni nodau ac amcanion *Mwy na geiriau*....

Yn unol â'r camau gweithredu a eglurwyd yn *Mwy na geiriau*, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu fforwm o Hyrwyddwyr y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Bydd y fforwm hwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ac mae ei aelodau yn gyfrifol am ledaenu gwybodaeth fonitro. At hynny, yr Hyrwyddwyr sy'n gyfrifol am hybu a chyflawni *Mwy na geiriau*.... ar draws ardal eu hawdurdod lleol.

1. Cynllunio a darparu gwasanaethau (Amcan 1)

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi symud i'r cyfnod gweithredu. Mae darpariaeth Gymraeg yn parhau wrth wraidd y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau, y codau ymarfer a'r arweiniad statudol sy'n cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod hwn.

Yn rhedeg ochr yn ochr â'r gwaith ar reoliadau, mae canolfan wybodaeth yn cael ei datblygu fydd o gymorth i weithredu'r Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrrff sy'n bartneriaid i sicrhau y bydd y ganolfan yn cynnig llwyfan hygyrch i gael mynediad at adnoddau dwyieithog.

Mae'r Datganiad Llesiant drafft yn egluro deilliannau llesiant i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalgwyr sydd angen cefnogaeth. Mae'r deilliannau hyn yn cynnwys a yw pobl yn derbyn gofal drwy'r Gymraeg os oes arnynt ei angen.

Fel ym mlwyddyn gyntaf *Mwy na geiriau*...., mae ymrwymiad awdurdodau lleol i gynllunio gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn parhau i amrywio ar draws y 22 awdurdod. Dengys y dystiolaeth ar hyn o bryd fod gan bob un o'r 22 awdurdod grwpiau penodol wedi eu sefydlu i fynd i'r afael â'r anghenion hyn ond mae diffyg adnoddau'n parhau a diffyg staff ar gael sy'n meddu ar y sgiliau iaith cywir i sicrhau bod cynllunio gwasanaeth wedi ei integreiddio'n drwyadl i gyfarfod ag anghenion iaith defnyddwyr gwasanaeth.

Mae angen meithrin perthynas gadarnach gyda'r sefydliadau preifat a gwirfoddol gan mai hwy yw prif ddarparwyr y gwasanaethau yn y sector hwn o hyd. Fodd bynnag, mae'r berthynas wedi cael ei chryfhau ac mae partneriaeth wedi datblygu gyda phartneriaethau datblygu gweithlu gofal cymdeithasol (SCDWP), drwy fentrau hyfforddi, gan godi ymwybyddiaeth o gysyniad Cynnig Rhagweithiol y fframwaith ar gyfer eu haelodau.

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Un o'r gwelliannau allweddol yw cadernid cynyddol y data am iaith defnyddwyr gwasanaeth, staff a manylion cyfrifiad 2011. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi creu proffil cymunedol Cymraeg (data'r cyfrifiad) ac yn defnyddio'r wybodaeth fel rhan o'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ac o ddarparu gwasanaethau. Cafodd gwaith ei wneud gyda chartrefi gofal sy'n gofalu am bobl â dementia, er mwyn canfod nifer y preswylwyr y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg a nifer y staff sy'n medru siarad Cymraeg.

Mae caffael yn dilyn arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar gomisiynu gwasanaethau. Mae'r broses o fonitro contractau yn sicrhau bod gan ddarparwyr bolisi Cymraeg a bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo'n briodol.

Mae cynllun prosiect Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), sy'n egluro sut mae AGGCC yn hybu *Mwy na geiriau....* yn ei gwaith, wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau. Sefydlwyd bwrdd prosiect hefyd o fewn AGGCC i oruchwylio gweithrediad y cynllun, sy'n cynnwys sefydlu egwyddor y cynnig rhagweithiol yn ei fframweithiau arolygu.

Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

Mae angen mabwysiadu dull cyson ar draws y wlad o ddefnyddio'r data o broffiliau cymunedol yn y prosesau cynllunio.

Parhau i fonitro datblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a datblygiadau polisi a deddfwriaeth dilynol mewn perthynas ag integreiddio anghenion iaith Gymraeg.

2. Comisiynu a'r Cynnig Rhagweithiol (Amcan 2)

Mae darparu'r Cynnig Rhagweithiol yn ganolog i gyflawni'r camau gweithredu ym mlwyddyn dau. Er bod y cysyniad yn un heriol, mae'n dibynnu'n drwm ar sgiliau Cymraeg y gweithlu ar draws sector y gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â chynllunio a chyflawni'r sgiliau hyn mewn perthynas ag anghenion iaith defnyddwyr.

Nid yw'r cysyniad wedi'i wireddu'n llawn ond mae enghreifftiau o arferion da ar gael.

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi gweithio ar eu gallu i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol. Er mwyn cynyddu'r Cynnig Rhagweithiol i'r eithaf, defnyddiwyd arolygon staff mewn rhai manau i ganfod niferoedd y staff sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn gwahanol feysydd gwasanaeth.

Yn rhai ardaloedd, caiff dewis iaith defnyddiwr ei gofnodi ar y pwynt cyswllt cyntaf a chaiff y system wybodaeth ei newid i'w gwneud yn bosibl mesur perfformiad o ran dyrannu staff Cymraeg i'r fan lle mae'r Gymraeg yn ddewis iaith. Bydd y mesuriad hwn wedyn yn bwydo i mewn i ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant.

Mae caffael yn dilyn arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar gomisiynu gwasanaethau. Mae'r broses o fonitro contractau yn sicrhau bod gan ddarparwyr bolisi Cymraeg a bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lledaenu arweiniad i'r sector ar egwyddorion y 'Cynnig Rhagweithiol'.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddatblygu 'Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth' Gofal Oedolion er mwyn i ddarparwyr gynnwys data ar iaith, y Cynnig Rhagweithiol a sut y mae darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu i bobl yn eu dewis iaith. At hynny, mae fframwaith arolygu newydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol fydd yn cofnodi gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau Cymraeg mewn gofal cymdeithasol.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

Rhaid mabwysiadu dull cyson er mwyn sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei wneud a bod y dewis iaith yn ystod y sgysiau cynnar ynghylch llesiant ac atal yn cael ei gofnodi a bod unrhyw gyswllt yn dilyn hynny i fod yn yr iaith a ddewiswyd.

Bydd Uned Polisi'r Gymraeg Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn creu canolfan e-adnoddau fel y gall ymarferwyr gael mynediad at adnoddau Cymraeg sy'n bod eisoes megis Porth Termau a CysGair.

Dylid nodi anghenion iaith yn ystod asesiad yn fuan a'u cynnal yn y ddewis iaith.

Mae Llywodraeth Cymru i fonitro'r cynllun arfaethedig i olrhain contractau caffael Cymraeg o 2015 ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod rhaid i'r Cynnig Rhagweithiol gael ei adlewyrchu yn narpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol.

3. Datblygu'r Gweithlu (Amcan 3)

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae gwaith wedi parhau i fynd ymlaen i gasglu gwybodaeth am sgiliau'r gweithlu ac mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnal archwiliadau iaith Gymraeg er mwyn mesur gallu, parodrwydd a hyder y staff i ddefnyddio'r iaith. Gwelodd rhai awdurdodau gynnydd yng nghyfran y staff dydd, Cymraeg eu hiaith, mewn cartrefi preswyl/nysio yn y sector preifat, sy'n awgrymu bod y gwaith o godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dewis iaith wedi cael peth dylanwad, ochr yn ochr â gofynion y contract newydd. Caiff hyn ei adlewyrchu hefyd yn y defnydd cynyddol o gyhoeddiadau, deunydd recriwtio ac arwyddion dwyieithog yn y sector preifat, lle na byddai ond cartrefi awdurdod lleol yn darparu'r holl ddeunydd yn ddwyieithog o'r blaen.

Mae rhai awdurdodau wedi gweithredu lefelau ALTE gyda golwg ar recriwtio, a disgwylir i'r holl staff rheng flaen gael sgiliau llafar ar lefel 3 o leiaf pan gânt eu penodi. Mae llawer o staff rheng flaen wedi mynychu cwrs Cymraeg sylfaenol dwys ac ar hyn o bryd yn mynychu cwrs yn gyson i wella eu sgiliau Cymraeg.

Mae llawer o awdurdodau yn cynorthwyo'r gweithle i recriwtio a datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu: Mae llawlyfr Cyngor Gofal Cymru 'Sgiliau Iaith Gymraeg Eich Gweithlu' wedi cael ei ddisbarthu yn y sector. Mewn rhai ardaloedd, cafodd Llysgenhadon Gofal sy'n siarad Cymraeg eu recriwtio ac maent yn canolbwyntio ar gyflwyno sesiynau gwybodaeth rhyngweithiol i ysgolion Cymraeg gyda'r nod o gynyddu'r gweithlu gofal cymdeithasol Cymraeg.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi cynnal archwiliad o sgiliau ei staff i ganfod y rheiny sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog fel sail i'w chynlluniau ar gyfer cynyddu'r gallu. Er mwyn cynyddu gallu iaith Gymraeg y gweithlu, mae swyddi perthnasol wedi cael eu dynodi fel rhai lle mae Cymraeg yn hanfodol ac mae hyn yn rhoi gwybodaeth ar gyfer recriwtio. Mae staff wedi cael y cyfle i ddilyn hyfforddiant iaith Gymraeg, ac mae arweiniad wedi ei roi i staff ynghylch sut i gynnal busnes gyda rhanddeiliaid yn Gymraeg dros y ffôn.

Mae arweiniad arolygu newydd ar gyfer ei harolygwyr hefyd yn cael ei ddatblygu gan AGGCC sy'n ymdrin ag egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol. At hynny, mae AGGCC yn datblygu hyfforddiant ar fframweithiau arolygu newydd ar gyfer arolygwyr. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys disgygliadau ynglŷn â'r Cynnig Rhagweithiol mewn arolygon.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu:

Ar ddiwedd ail flwyddyn y cynllun gweithredu, mae cynnydd wedi ei wneud mewn nodi'r siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu. Mae angen i wasanaethau ddadansoddi'r data a chynllunio sut y byddant yn datblygu sgiliau iaith y gweithlu yn unol â hynny.

Mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn sefydlu Grŵp Cydymffurfio â'r Gymraeg a Chefnogaeth, fydd yn cael ei arwain gan y trydydd sector. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r mesur wella'r perfformiad yn erbyn y safonau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg. Trefnir digwyddiad lansio, gan gynnwys sesiynau gweithdy i drafod goblygiadau a gofynion *Mwy na geiriau.....*

4. Arweinyddiaeth (Amcan 4)

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu grŵp strategaeth y Gymraeg ac wedi penodi Hyrwyddwyr y Gymraeg i ddarparu cefnogaeth a chyfeiriad ar gyfer blaenoriaethau Cymraeg. At hynny, maent wedi datblygu datganiad Cymraeg a datganiadau ysgrifenedig o gefnogaeth hefyd sydd wedi eu cyflwyno fel rhan o adroddiadau blynyddol.

Mae niferoedd cynyddol o reolwyr wedi mynychu'r cwrs 'Sgiliau'r Gymraeg ar gyfer Rheolwyr' a chysiau ymwybyddiaeth o'r iaith i hybu hyder a medrusrwydd yn y Gymraeg.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi sefydlu bwrdd prosiect ac wedi dyrannu dau reolwr prosiect i yrru ymlaen y gwaith o hybu *Mwy na geiriau.....* ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Pwyntiau Gweithredu:

Mae arweinwyr awdurdodau lleol i barhau i gymryd anghenion iaith Gymraeg poblogaethau lleol i ystyriaeth wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau.

5. Addysg, Dysgu a Datblygiad (Amcan 5)

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darparu cysiau iechyd a gofal cymdeithasol addysg uwch, Cymraeg. Mae yna amrywiaeth o gyrsiau a modiwlau ar gael ledled Cymru.

Ym mis Mai 2015, lansiodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei MOOC cyntaf (Cwrs ar-lein Agored Enfawr) sef modiwl sy'n edrych i mewn i Ymwybyddiaeth a Sensitifrwydd i'r Gymraeg, a gomisiynwyd ar y cyd gyda Chyngor Gofal Cymru. Mae wedi ei gynllunio'n bennaf ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol sy'n fyfyrwyr, ond mae'r adnodd wedi ei strwythuro yn y fath fodd fel y gellir defnyddio elfennau ohono mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith o wahanol fathau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Mae'r adnodd, sydd ar gael dan drwydded agored, yn cynnwys unedau ar 'Deall Dwyieithrwydd' a 'Dewis, Angen a'r Cynnig Rhagweithiol'. Mae'r modiwl yn cyfateb i 10 credyd academiaidd, a mae Timau Gwaith Cymdeithasol / darlithwyr ym Mhrifysgolion Bangor, Abertawe, Caerdydd a'r Brifysgol Agored, gan gynnwys rhai colegau addysg bellach, wedi cyflwyno eu myfyrwyr i'r modiwl hwn ers mis Hydref 2015 ymlaen.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn buddsoddi yn eu gweithlu presennol ac yn hysbysebu'n ehangach bod cyfleoedd hyfforddi Cymraeg ar gael.

Mae mwy o ddisgwyl i hyfforddwy'r allanol a mew'nol gadarnhau gofynion *Mwy na geiriau....* yn yr holl gyrsiau hyfforddi priodol.

Mae un cyngor wedi sefydlu prentisiaethau mewn gofal gyda'r nod o recriwtio siaradwyr Cymraeg lleol i weithio o fewn cartrefi gofal lleol.

Fel rhan o drefniant gyda Phrifysgol Bangor, mae gan awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy gytundeb y bydd canran uchel o fyfyrwyr y rhaglen MA mewn Gwaith Cymdeithasol yn siaradwyr Cymraeg.

Pwyntiau Gweithredu:

Edrych i mewn i'r cyfleoedd i addysgu ac ymgysylltu'n gynnar â phobl ifanc sydd eisiau mynd i mewn i broffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol, pan fyddant yn dechrau meddwl am eu gyrfa.

Parhau i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i astudio'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Strategaethau a Pholisïau (Amcan 6)

Cyflawniad Blwyddyn 2:

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith polisïau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol newydd ar y Gymraeg drwy gynnal asesiad effaith ar y Gymraeg ar bob polisi er mwyn sicrhau bod ystyriaethau'r iaith Gymraeg yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt.

Bu Grŵp Arweinyddiaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cefnogi gweithredu *Mwy na geiriau....* ac mae wedi cytuno y bydd e-ddysgu am ddiwylliant Cymru yn fadadol i holl staff AGGCC. Mae system gyfrifiadurol newydd hefyd wedi ei mabwysiadu yn AGGCC, fydd yn ei gwneud yn bosibl cofnodi galluoedd iaith darparwyr.

Bydd 'Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth' Gofal Oedolion a'r fframweithiau arolygu newydd, sydd wrthi'n cael eu datblygu, yn cofnodi darparu gwasanaethau i bobl yn Gymraeg ac yn galluogi AGGCC i hybu'r Cynnig Rhagweithiol.